

## **Cyfrifeg a Chyllid**

**Amser: NAW DEG MUNUD**

**DYLECH ATEB DAU GWESTIWN YN UNIG o blith y pedwar; mae pob cwestiwn yn gyfwerth eu marciau.**

**Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.**

**Datganwch unrhyw ragdybiaethau a wnewch, a'u hesbonio.**

**Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.**

## **CWESTIWN 1**

Atebwch **BOB** Rhan

Dyma grynodedb o ddatganiadau ariannol British Airways ccc am y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2017 a 2016:

<b>Datganiad o Incwm i'r bl.<sup>oedd</sup> ddaeth i ben 31 Rhagfyr</b>	<b>2017</b>	<b>2016</b>
	£ miliwn	£ miliwn
Trosiant	12,226	11,398
Costau gweithredu	- 10,452	- 9,901
Elw/Colled gweithredu	1,774	1,497
Eitem eithriadol	- 94	- 84
Costau cyllid	- 106	- 145
Incwm cyllid	35	22
Erail	135	300
Elw/colled o weithgareddau arferol cyn treth	1,744	1,590
Treth ar elw o weithgareddau arferol	- 341	- 245
Elw/colled o weithgareddau arferol ar ôl treth	<b>1,403</b>	<b>1,345</b>
<b>Mantolen ar 31 Rhagfyr</b>	<b>2017</b>	<b>2016</b>
	£ miliwn	£ miliwn
Asedau anghyfredol	12,160	12,810
Asedau cyfredol		
Stocrestrau	131	128
Dyledwyr	766	751
Erail	2,665	2,576
Arian parod	956	886
	4,518	4,341
Rhwymedigaethau cyfredol		
Credydwyr masnach	1,943	2,245
Rhwymedigaethau eraill	3,525	3,388
	5,468	5,633
Rhwymedigaethau anghyfredol	5,236	5,306
Asedau net	<b>5,974</b>	<b>6,212</b>
Cyllid Cyfranddalwyr Ecwiti	<b>5,974</b>	<b>6,212</b>

Rhagor o wybodaeth:

	<b>2017</b>	<b>2016</b>
Cyfranddaliadau awdurdodedig (miliynau)	2,144	2,144
Difidend a Dalwyd (£ miliynau)	460	350

**Mae angen:**

- a. O'r wybodaeth uchod, cyfrifo'r cymarebau ariannol sydd, yn eich barn chi, fwyaf priodol i bwysu a mesur sefyllfa ariannol British Airways ccc ar 31 Ionawr 2017 a 2016. Dylech gyfrifo wyth cymhareb o leiaf, gan roi'r fformiwlâu yn amlwg a dangos yr holl waith cyfrifo perthnasol.

**(16 marc)**

- b. Dehonglwch ganlyniadau'ch gwaith cyfrifo i ran (a) uchod a rhowch eich sylwadau arnynt. Nodwch pa wybodaeth ychwanegol y byddai ei hangen arnoch er mwyn gallu cynnal y dadansoddiad hwnnw yn fanylach.

**(8 marc)**

- c. Trafodwch yn gryno beth yw cyfyngiadau dadansoddi cymarebau cyrifon ariannol.

**(6 marc)**

## **CWESTIWN 2**

Dyma fantolen brawf Diana Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31/12/2017:

	Dr	Cr
	£	£
Croniadau		870
Costau gweinyddu	21,330	
Darpariaeth drwgddyledion		130
Banc	670	
Dibrisio cronedig ar geir hyd at 31/12/2017		500
Ceir yn ôl y gost	1,500	
Credydwyr		5,200
Benthyciad Banc i'w had-dalu ar 31/12/2030		4,670
Cyflogau Cynhyrchu	800	
Llog a dalwyd	330	
Tir ac adeiladau yn ôl y prisiad ar 31/12/2016	14,130	
Dibrisio cronedig ar gyfarpar ac offer hyd at 31/12/2016		1,330
Cyfarpar ac offer yn ôl y gost	6,650	
Rhagdaliadau	270	
Pryniadau	9,935	
Elw a gedwir ar 31/12/2016		2,935
Cronfa ailbriso ar 31/12/2016		135
Gwerthiannau		50,935
Costau dosbarthu	1,550	
Cyfalaf cyfranddaliadau (cyfranddaliadau cyffredin £2.00)		7,330
Stoc ar 31/12/2016	14,870	
Symiau derbyniadwy masnachol	2,000	
	74,035	74,035

Daeth i'r amlwg nad oedd y wybodaeth ychwanegol isod wedi'i chynnwys wrth baratoi'r fantolen brawf hon:

- i. Cyhoeddodd y cwmni 3,000 o gyfranddaliadau newydd am arian parod am £5.00 fesul cyfranddaliad ar 31/12/2017, gan gael y derbyniadau am y cyfan ar yr un diwrnod. Roedd £3.00 o bremiwm cyfranddaliadau wedi'i gynnwys ym mhreis y cyfranddaliadau, sef £5.00.
- ii. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017, canslwyd un o'r archebion roedd y cwmni wedi'u cael. Prisiwyd y stoc honno ar £750 ac roedd i fod i gael ei gwerthu am £1,500. Mae Diana Cyf wedi llwyddo i ddod o hyd i gwsmer arall sydd wedi cytuno i brynu'r stoc honno ym mis Ionawr 2018, ond dim ond £650 y mae'n fodlon eu talu.
- iii. Darparwyd ar gyfer dibrisio ar gyfarpar ac offer i ddiddymu'r gost ar sail llinell syth dros 10 mlynedd. Rhoddir y dibrisiad hwn i gost y gwerthiannau. Gallwch dybio nad oes gan yr offer ddim gwerth gweddilliol, ac nad oedd yr un eitem o gyfarpar nac offer yn hŷn na 9 mlwydd oed ar 1/1/2017.

- iv. Ar 31/12/2017 prisiwyd y tir a'r adeiladau yn ôl y farchnad, sef £20,000. Mae'r Cyfarwyddwyr yn bwriadu ymgorffori'r prisiad hwnnw yn y datganiadau ariannol.
- v. Y bil trydan diweddaraf a gafwyd, ac y talwyd amdano, oedd am £100, sef yr un wedi'i ddyddio am fis Medi.
- vi. Ar 31/12/2017 cymerodd y cwmni fenthyciad dyledebau (debenturau) ychwanegol am £10,000 i'w ad-dalu ar 31/12/2025.
- vii. Amcangyfrifir mai £3,500 fydd y dreth a godir am y flwyddyn.

### **Mae angen**

- a. Defnyddio cyfrifon cofnodi dwbl i gofnodi effeithiau'r eitemau i) i vii) uchod.  
**(12 marc)**
- b. Paratoi datganiad o incwm i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/12/2017, ynghyd â mantolen i'r dyddiad hwnnw, gan ymgorffori'r wybodaeth a roddwyd yn y fantolen brawf ynghyd ag effeithiau'r eitemau i) i vii).  
**(18 marc)**

### **CWESTIWN 3**

Dechreuwyd busnes George Cyf ar 1 Ionawr 2017 a daeth ei flwyddyn i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Dyma drafodion George Cyf yn ystod y flwyddyn.

- i. Cafodd George Cyf gyllid am gyfalaf cyfranddaliadau, sef £100,000 ar 1 Ionawr 2017
- ii. Rhoddodd Mr. Harris £20,000 yn fenthyciad i'r cwmni, yn dechrau ar 1 Ionawr 2017 am 5% y flwyddyn. Byddai'r llog yn cael ei dalu bob yn chwe mis, sef ar 1 Gorffennaf 2017 a 1 Ionawr 2018.
- iii. Talodd George Cyf £3,000 mewn arian parod am hysbysebu yn 'The Chronicle' ar 1 Ebrill 2017.
- iv. Yn ystod y flwyddyn prynodd George Cyf gyfanswm o 50,000 uned o ddeunydd am £1 fesul uned mewn arian parod. Roedd angen pum uned i gynhyrchu un eitem o nwyddau gorffenedig. Defnyddiodd George Cyf bob un o'r unedau hyn i gynhyrchu 10,000 uned o nwyddau gorffenedig erbyn 31 Rhagfyr 2017.
- v. Talwyd cyfanswm o £6,000 mewn arian parod am gostau'r gwresogi a'r goleuadau am y flwyddyn
- vi. Amcangyfrifwyd y byddai gwerth £1,000 o gostau gwresogi a goleuadau ychwanegol yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn, ond ni thalwyd amdanynt erbyn 31 Rhagfyr 2017
- vii. Gwerthwyd 8,000 o unedau o'r nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £30 yr un ar sail credyd

- viii. Erbyn 31 Rhagfyr 2017 roedd George Cyf wedi cael £200,000 mewn arian parod am werthu'r nwyddau gorffenedig yn (vii) uchod.
- ix. Gwerthwyd 1,000 o nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £40 yr un fel gwerthiannau arian parod.
- x. Talwyd prydles ar yr eiddo yn llawn, sef £48,000, am ddwy flynedd ar 1 Ionawr 2017.
- xi. Talwyd y cyflogau i'r cyfnod o fis Ionawr i fis Tachwedd, sef £55,000 ond roedd costau cyflogres mis Rhagfyr, sef £5,000, heb eu talu
- xii. Prynwyd fan newydd am £8,000 mewn arian parod ar 1 Ionawr 2017 ac mae disgwyl iddi bara am 4 blynedd. Mae George Cyf yn tybio nad oes dim gwerth gweddilliol, ac mae'r cwmni yn defnyddio dull y llinell syth o ddibrisio.
- xiii. Ar ddiwedd y flwyddyn cynhaliwyd arolwg o'r stoc. Yn yr arolwg hwnnw cafwyd bod 1,000 uned o stoc orffenedig wedi'u prisiau ar £8 fesul uned.

**Mae angen:**

- a) Cyflwyno'r trafodion uchod ar ffurf cyfrifon T. **(17 marc)**
- b) Paratoi mantolen brawf i George Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2017. **(13 marc)**

#### **CWESTIWN 4**

I ateb cwestiwn 4, dylech roi cynnig ar DDAU o'r cwestiynau isod (15 marc sydd ar gael i bob un, sef cyfanswm o 30 marc):

- i) *'Y datganiad o incwm yw'r unig ddatganiad ariannol pwysig sy'n ddefnyddiol neu'n berthnasol o gwbl'*

Gan gyfeirio at y mathau eraill o ddatganiadau ariannol a sut y'u defnyddir, a gytunwch chi â'r datganiad uchod?

**(15 marc)**

- ii) Er mwyn i chi gael mwy o arian pan fyddwch chi yn y brifysgol y flwyddyn nesaf, rydych wedi penderfynu buddsoddi mewn rhai cwmnïau 'tocyn glas' ac rydych wedi dechrau edrych ar adroddiadau blynyddol ar y we.

- a. Trafodwch yn gryno'r hyn sy'n cael ei gynnwys mewn adroddiadau blynyddol cwmnïau.

**(3 marc)**

- b. At bwy y mae'r Archwilydd yn cyfeirio'r adroddiad blynyddol?

**(1 marc)**

- c. Rhestrwch y saith grŵp o ddefnyddwyr a gydnabyddir gan yr IASB (Bwrdd Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol)

**(3 marc)**

- d. O'ch rhestr uchod, disgrifiwch sut y byddai PEDWAR o'r grwpiau hyn o ddefnyddwyr yn defnyddio'r adroddiad blynyddol. Trafodwch y gwrthdaro posib rhwng y ffyrdd hynny o ddefnyddio adroddiadau blynyddol a dibenion eu cyhoeddi.

**(8 marc)**

**(15 marc i gyd)**

- iii) Mae cwmni yn gallu dibrisio eu hasedau anghyfredol (asedau sefydlog) mewn sawl ffordd.

- a. Rhowch ddau ddull gwahanol o ddibrisio y gallai cwmni ddewis eu defnyddio, a rhowch esboniad ohonynt.

**(6 marc)**

- b. Gan ddefnyddio'r ddau ddull a ddewisasoch uchod yn rhan a. uchod, dangoswch sut y mae dulliau gwahanol o ddibrisio'n gallu effeithio ar fantolen ac elw'r cwmni.

**(9 marc)**

**(15 marc i gyd)**

- iv) Weithiau mae cwmnïau proffidiol wedi mynd yn fethdalwyr, ac weithiau mae gwargedion sylweddol o arian parod gan gwmnïau sy'n gwneud colledion.

Esboniwch y rhesymau am yr anghysondeb ymddangosiadol hwn.

**(15 marc)**